# Amgueddfeydd sy'n sbardun economaidd

Mae amgueddfeydd ledled Cymru yn gwneud cyfraniad economaidd gwerthfawr at wydnwch cymunedau.

Mae amgueddfeydd yn dangos ysbryd entrepreneuraidd wrth greu ffrydiau incwm newydd ac yn denu cefnogaeth gan ystod eang o gyllidwyr cyhoeddus ac elusennol cenedlaethol a lleol.

**Yn 2022:**

- Mae dros 1,400 aelod o staff (893 CLlA) yn cael eu cyflogi gan amgueddfeydd yng Nghymru. Mae 226 (CLlA) o'r rhain yn cael eu cyflogi mewn amgueddfeydd awdurdodau lleol ac annibynnol.
- Cyfrannodd dros 1,800 o wirfoddolwyr dros 144,000 awr y flwyddyn at eu hamgueddfeydd, ac amgueddfeydd annibynnol oedd â'r nifer fwyaf o wirfoddolwyr.
- Mae 75 y cant o amgueddfeydd yn derbyn cymorth gan eu hawdurdod lleol, ond dim ond 15 y cant nododd gynnydd mewn cymorth ers Arolwg Sbotolau 2020. Dywedodd traean o'r amguedd-feydd eu bod yn derbyn llai o gymorth.
- Mae dros 70 y cant o amgueddfeydd yn dod â chyllid grant yn llwyddiannus i'w safleoedd o ffynonellau gan gynnwys y llywodraeth, cyllidwyr sector, cyrff dosbarthu grantiau mawr ac elusennau arbenigol.
- Adroddodd 70 y cant o amgueddfeydd eu bod yn codi tâl am arddangosfeydd neu wasanaethau penodol yn ychwanegol at yr hyn y maen nhw'n ei godi am fynediad cyffredinol.

**Y gweithlu mewn amgueddfeydd Cymru (Sbotolau 2022)**




Adroddiad Ymchwil Llawn:
Chaplin E, Henderson J, Parkes P (2023).
Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2022.
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 83/2023.
Ar gael yn:
https://www.llyw.cymru/arolwg-sbotolau-ar-amgueddfeydd-2022

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Mae 70% o amgueddfeydd yn codi tâl ar gyfer arddangosfeydd neu wasanaethau penodol




## Newid mewn cymorth yr Awdurdod Lleol (Sbotolau 2020-Sbotolau 2022)

| | Wedi disgyn | Wedi Aros yr un Peth | Wedi codi | Dd/B (dim cymorth gan yr Awdurdod Lleol) |
|---|---|---|---|---|
| Annibynnol | ▼▼▼▼▼▼▼▼▼ | ●●●●●●●●●●●●●● | ▲▲ | ××××××××× |
| Awdurdod Lleol | ▼▼▼▼▼▼▼▼▼▼ | ●●●●●●●●●● | ▲▲▲▲▲ | - |
| Cenedlaethol | - | ●●●●●● | ▲ | - |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | - | - | - | ××××××× |
| Prifysgol | - | ● | - | ××× |

**GEIRIAU'R YMATEBWYR**

*"Ein her fwyaf yw cyllid, creu incwm a dod yn fwy gwydn yn an-nibynnol ac yn ariannol. Rydym yn gweithredu o leoliad Awdurdod Lleol lle mae nifer yr ymwelwyr a'r incwm wedi gostwng"*

*"Yn 2022, cawsom gyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri ar gyfer ein prosiect gwerth £2.3miliwn o'r enw 'Perthyn: Archwilio sut y gall casgliadau greu cymuned yng Ngheredigion'"*

Adroddiad Ymchwil Llawn:
Chaplin E, Henderson J, Parkes P (2023).
Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2022.
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 83/2023.
Ar gael yn:
https://www.llyw.cymru/arolwg-sbotolau-ar-amgueddfeydd-2022

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government